Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being
GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol
International Health

# CYLCHLYTHYR

RHIFYN 1: MEDI 2023




## Y DU yn aelod cyswllt Horizon Europe!

Mae statws y DU fel aelod gwlad gyswllt o'r rhaglen wedi'i gadarnhau. Mae hyn yn golygu ar gyfer rhaglen waith 2024, bydd sefydliadau o Gymru yn gymwys i wneud cais a derbyn cyllid gan raglen Horizon Europe. Yn y cyfamser, mae Gwarant y DU ar gael i ymgeiswyr ar gyfer rhaglen 2023. Bydd diwrnodau gwybodaeth ar rai meysydd o'r rhaglen yn cael eu cynnal yn fuan: Diwrnodau gwybodaeth Horizon Europe (europa.eu)

## Fframwaith Iechyd Byd-eang Newydd y DU

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU eu Fframwaith Iechyd Byd-eang newydd ym mis Mai, sy'n nodi eu huchelgais i chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o wella iechyd yn fyd-eang a meithrin



gwytnwch i fygythiadau yn y dyfodol. Mae'n amlinellu'r camau y bydd y DU yn eu cymryd rhwng 2023 a 2025 i gefnogi iechyd ac ar gyfer DU a byd mwy diogel a llewyrchus.

## E-Ddysgu Dinasyddiaeth Fyd-eang modiwlau

Mae Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lansio adnodd e-Ddysgu Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae'r platfform dysgu ar-lein rhad ac am ddim hwn wedi'i anelu at weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru ac i unrhyw un yn y GIG sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am Ddinasyddiaeth Fyd-eang, a deall profiadau a safbwyntiau gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a sut y gallant fod yn ddinasyddion byd-eang gwell.



Fi weld y modiwlau llawn ewch i hafan dysgwr my.esr.nhs.uk a chwilio am Modiwl Craidd Dinasyddiaeth Fyd-eang
NEU mewngofnodwch i'ch cyfrif yn dysgu.gig.cymru a chwilio am Rhaglen Dinasyddion Byd-eang
Gallwch hefyd wylio fideo rhagarweiniol YMA.

# Cydweithrediad Nyrsio Iechyd Meddwl Julia

Ym mis Ebrill - Mehefin 2023, roeddwn yn hapus i dderbyn y Cyfle Dysgu Rhyngwladol (ILO) a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn nwyrain Uganda. Fel academydd nyrs iechyd meddwl, roeddwn yn gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm sgiliau mewn amgylchedd gofal iechyd ac addysgol gwahanol iawn.

Cododd arweinydd yr ILO yn Ysbyty Atgyfeirio Rhanbarthol Mbale (RH) fy CV a chawsom drafodaeth dros Zoom am yr hyn y gallwn ei gynnig i staff ysbytai a'r lleoliad prifysgol lle maent yn addysgu myfyrwyr nyrsio. Roeddwn yn falch o glywed bod cyfle i gydweithio ar gyfer modiwl nyrsio iechyd meddwl yn cychwyn yn fuan.



Cyrhaeddais ddwyrain Uganda a gweld trefniant cefnogol iawn gyda staff Mbale Coalition Against Poverty a staff yn Mbale RRH. Ar ôl cael fy nghynefino â'r brifysgol a'r uned cleifion mewnol iechyd meddwl leol, ymgartrefais yn gyflym i'r pedair wythnos nesaf o gynllunio ac addysgu'r rhaglen nyrsio iechyd meddwl i fyfyrwyr blwyddyn olaf.

Treuliais amser fel addysgwr nyrsio clinigol yn yr uned cleifion mewnol iechyd meddwl, yn gweithio ochr yn ochr â'r myfyrwyr. Yma fe wnaethom gyfarfod â chleifion a'u gofalwyr a chymryd rhan yn rowndiau'r ward, a dysgu am wahanol gyflyrau a symptomau iechyd meddwl a phrofiadau bywyd pobl, a oedd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer dysgu myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Ar gyfer ail hanner fy mhrofiad, ymwelais â chyrff anllywodraethol lleol a deall mwy am system iechyd Uganda. Uchafbwynt gwirioneddol oedd ymweld â grwpiau cymunedol, deall bywoliaethau, amgylcheddau gofal iechyd cymunedol, a monitro prosiectau presennol eraill fel ambiwlansys beiciau modur a phecynnau hyfforddi gweithwyr iechyd. Gorffennais fy amser yn Uganda yn Kampala, gan ymweld ag ysgol i'r byddar a sawl elusen ar gyfer y byddar, gan fy mod eisiau cysylltu â phartneriaid posibl ar gyfer ceisiadau ymchwil pellach.

Y prif fanteision i mi oedd dysgu am y system iechyd mewn gwlad arall, a'r cyd-destun y mae pobl yn byw, yn dysgu ac yn gweithio ynddo. Rwyf wedi cynyddu fy nghymwyseddau diwylliannol ynghylch anghydraddoldebau iechyd, ac rwyf hefyd yn deall mwy am yr hyn sy'n gweithio'n dda. Mae manteision eraill yn cynnwys y cyfle i fagu hyder a hunanddatblygiad, yn ogystal â throsglwyddo gwybodaeth.

Roedd y profiad yn hynod o ddatblygiadol, ac rydw i wedi ennill gwybodaeth a phrofiad y byddaf yn mynd â nhw yn ôl gyda mi i Gymru. Bydd cydweithio ar fodiwl nyrsio iechyd meddwl a chysylltu â phartneriaid ymchwil posibl hefyd yn fy helpu i adeiladu ar fy ngwaith ac ehangu arno. Byddwn yn argymell i unrhyw un wneud cais!

Yn y pen draw, bydd cael staff yn y sectorau iechyd, gofal ac addysg sy'n ymwybodol yn fyd-eang fel dinasyddion, ac sydd wedi cael profiad a allai wella bywyd a gyrfa yn aml o fudd i sefydliadau yng Nghymru wrth i staff ddychwelyd gyda golwg ehangach ar y byd. Rwyf eisoes wedi bod yn defnyddio fy nysgu i gyflwyno ceisiadau ymchwil gyda phartneriaid i wella cyfleusterau iechyd. Rwyf hefyd wedi gallu rhannu'n eang am yr hyn sy'n helpu o ran gwella iechyd, lleihau marwolaethau mamau a babanod, adborth gan weinidogaethau iechyd a'r hyn yr wyf wedi'i weld yn uniongyrchol mewn canolfannau iechyd lleol o ran yr hyn sy'n gweithio yn ogystal â materion parhaus, a pham eu bod yn bodoli.

Os hoffech chi ddysgu mwy, fe wnes i gadw blog am fy amser yn Uganda.

Julia Terry
Athro Cyswllt Prifysgol Abertawe
Cadeirydd Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica

# Llwyfan Datrysiadau Ecwiti Iechyd Cymru



Lansio platfform digidol newydd i helpu rhanddeiliaid i ddatblygu mesurau i leihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru. Wedi'i ddatblygu gan y tîm Polisi ac Iechyd Rhyngwladol yng Nghanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, mae'n offeryn ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, awdurdodau lleol a gwneuthurwyr polisi er mwyn helpu i ysgogi syniadau a dod o hyd i atebion i broblemau tegwch.

Bydd Llwyfan Datrysiadau Ecwiti Iechyd Cymru (WHESP) yn gweithredu fel ystorfa o wybodaeth, astudiaethau achos ac ymyriadau blaenorol a ddefnyddir er mwyn helpu i fynd i'r afael ag annhegwch a rhannu arfer da yng Nghymru.

Mae'r platfform yn cynnwys offer data chwiliadwy a swyddogaeth llunio adroddiadau sy'n galluogi defnyddwyr i fewnbynnu eu termau chwilio a pharatoi allbynnau sy'n gysylltiedig â'r termau hynny. Mae'r platfform hefyd yn cynnig nodwedd sbotolau y gellir ei defnyddio i amlygu atebion neu themâu penodol.

Bydd y tîm yn datblygu'r platfform dros amser er mwyn ychwanegu cynnwys a nodweddion ychwanegol.

Lansiwyd y platfform mewn gweminar ar 22 Mehefin 2023, cynhelir gweminarau pellach i amlygu defnyddiau a datblygiadau newydd y system.

---



## Adroddiad Monitro Byd-eang Cwmpas Iechyd Cyffredinol (UHC) 2023 ar y cyd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a Banc y Byd

Mae'r adroddiad yn datgelu diffyg brawychus yn y cynnydd tuag at ddarparu gofal iechyd o ansawdd, sy'n fforddiadwy a hygyrch i bobl ym mhobman. Biliynau wedi'u gadael ar ôl ar y llwybr i Gwmpas Iechyd Cyffredinol (who.int)



## Rhifyn Medi Global Health The Lancet

Mae rhifyn diweddaraf cyfnodolyn Global Health The Lancet yn canolbwyntio ar degwch, partneriaethau synergaidd a sut mae angen gofal cydgysylltiedig i fynd i'r afael ag aml-forbidrwydd.

Gallwch ddarllen y rhifyn diweddaraf YMA.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol
International Health

# Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol

## Iechyd a Llesiant Meddwl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches


### Adroddiad 45, Gorffennaf 2023

AMae adolygiad o dystiolaeth ryngwladol a phrofiadau gwledydd wedi canfod bod gan geiswyr lloches, ffoaduriaid, a phobl eraill sydd wedi'u dadleoli ganlyniadau iechyd meddwl gwaeth na rhai'r boblogaeth gyffredinol.

Mae'r Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol 45: Iechyd Meddwl a Llesiant Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, hefyd yn rhoi mewnwelediadau o'r Almaen, Iwerddon, yr Iseldiroedd a Sweden ar ddulliau arloesol ac effeithiol o fynd i'r afael ag iechyd meddwl a llesiant pobl sydd wedi'u dadleoli.

Yn 2019, datblygodd Llywodraeth Cymru y cynllun 'Cenedl Noddfa' sy'n amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru i sicrhau bod anghydraddoldebau a brofir gan geiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu lleihau; a gwella mynediad at gyfleoedd ar gyfer addysg, cyflogaeth, cysylltu ac integreiddio â chymunedau lleol a gwneud ffrindiau.

---




## Cynghrair Hil Cymru: Dadwneud Mannau Anniogel

RCyhoeddodd Cynghrair Hil Cymru adroddiad yn gynharach eleni sy'n edrych ar sut i greu diwylliant gwirioneddol gynhwysol yn y gweithle ar gyfer staff hil-ddiffiniedig. Nod yr adroddiad hwn yw archwilio sut mae diwylliant hiliol yn effeithio ar staff hil-ddiffiniedig, gan ystyried yn benodol amgylcheddau gwaith swyddfa, oherwydd y ganran uchel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Yn bwysig, mae'r ymchwil yn ystyried sut mae'r diwylliant hwn yn amlygu trwy fframweithiau polisi, ffyrdd o weithio a pherthnasoedd proffesiynol. A chyda hyn, y nod yw darparu argymhellion clir, pendant y gellir eu mabwysiadu'n gyfannol gan gyflogwyr i alluogi newid cadarnhaol a fydd yn arwain at well effaith a chanlyniadau i staff hil-ddiffiniedig yn yr amgylcheddau hyn ledled y wlad.

Mae THET yn falch iawn o fod wedi lansio eu Rhaglen Gweithlu Iechyd Byd-eang newydd. Bydd y rhaglen a ariennir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu £8.9 miliwn i gryfhau'r gweithlu iechyd yn Ghana, Kenya, a Nigeria.

Gallwch ddarllen mwy yn eu cyhoeddiad llawn am y rhaglen wych hon YMA.



Cafodd un o ymddiriedolwyr THET, Dr Titilola Banjoko, sylw yn yr Health Service Journal ar 15 Awst gydag erthygl o'r enw 'Racism is preventing the NHS from getting the most from its international recruits', a oedd yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan THET ar Arbenigwyr Yn Eich Plith.
Gallwch ddarllen yr erthygl lawn YMA.

---




Mae adolygiad o dystiolaeth ryngwladol a phrofiadau gwledydd wedi canfod tystiolaeth y gallai polisïau amlsectoraidd leihau annhegwch iechyd.
Gwnaeth yr Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol 46: Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd archwilio penderfynyddion annhegwch iechyd ac amlygu pum maes polisi lle gellid cymryd camau gweithredu i leihau annhegwch.
Canfu'r adroddiad ym mhob gwlad ceir gwahaniaethau eang o ran statws iechyd grwpiau cymdeithasol gwahanol, gyda'r duedd gyffredinol yn dangos po isaf yw sefyllfa economaidd-gymdeithasol unigolyn, y mwyaf tebygol ydyw o brofi iechyd gwael a bod mewn perygl o iechyd gwael. Mae gan yr annhegwch hwn gostau cymdeithasol ac economaidd sylweddol, i unigolion a chymdeithasau. Mae'r darlun cyffredinol yn dangos bod polisïau sy'n dosbarthu mwy o adnoddau i ardaloedd sydd â mwy o anghenion iechyd, cymdeithasol ac economaidd yn cael effaith gadarnhaol ar leihau bylchau iechyd rhwng grwpiau cymdeithasol ac ardaloedd daearyddol.

# Digwyddiadau a Chynadleddau i ddod

WORLD HEALTH SUMMIT

## Uwchgynhadledd Iechyd y Byd 2023

Ymunwch ag Uwchgynhadledd Iechyd y Byd 2023 rhwng 15-17 Hydref a chwrdd â rhanddeiliaid o wleidyddiaeth, gwyddoniaeth, y sector preifat, a chymdeithas sifil o bob cwr o'r byd yn Berlin, yr Almaen ac ar-lein. O dan y thema "A Defining Year for Global Health Action", bydd WHS 2023 yn gosod yr agenda ar gyfer dyfodol iachach.

EUROPEAN PUBLIC HEALTH CONFERENCE

## 16eg Cynhadledd Ewropeaidd ar Iechyd Y Cyhoedd 2023

## Ein Bwyd, Ein Hiechyd, Ein Daear: Dyfodol Cynaliadwy i'r Ddynoliaeth

Cynhelir 16eg Cynhadledd Ewropeaidd Iechyd y Cyhoedd yn Nulyn rhwng yr 8fed a'r 11eg o Dachwedd. Bydd yn canolbwyntio ar yr argyfwng hinsawdd presennol, gan edrych yn benodol ar rywedd ac iechyd, darpariaeth gofal iechyd, y defnydd o offer digidol a'r staffio a'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu gofal da.
Cewch wybod rhagor am y Gynhadledd sydd ar ddod YMA.




## Cynhadledd Flynyddol THET 2023

Mae Cynhadledd THET eleni ar 31 Hydref a 1 Tachwedd, dan y teitl "Cyflymu gweithredu ar y Cwmpas Iechyd Cyffredinol: rôl Partneriaethau Iechyd", yn dilyn Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn nodi canolbwynt y Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs), yn ogystal â thri Chyfarfod Lefel Uchel (HLM): ar Gwmpas Iechyd Cyffredinol (UHC), Parodrwydd Pandemig a TB. Gyda chefnlen o argyfyngau croestoriadol yr hinsawdd, rhyfeloedd, ac etifeddiaeth ddinistriol y pandemig COVID, cynnydd cyfyngedig ar gwmpas iechyd cyffredinol, ac atchweliad ar rai SDGs iechyd, nod y cyfarfodydd hyn yw ailfywiogi cynnydd ar fynediad at iechyd i bawb.
Gallwch gofrestru ar ei gyfer YMA.




73ain Sesiwn o Bwyllgor Rhanbarthol WHO ar gyfer Ewrop, 24–26 Hydref 2023, Astana, Kazakhstan



## Fforwm Iechyd Ewropeaidd Gastein “Health systems in crisis Countering shockwaves and fatigue“

TBydd y Fforwm yn trafod sut i ymdopi â'r digwyddiadau tymhestlog presennol ac yn archwilio sut y gall argyfyngau helpu i gataleiddio datblygiad dulliau newydd o ymdrin â phroblemau'r system iechyd.

Ceir manylion llawn YMA.




## Cynhadledd Flynyddol Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica

Paratowch ar gyfer diwrnod cyffrous o gydweithio, dysgu a rhwydweithio gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o Gymru ac Affrica. Cynhelir y digwyddiad wyneb yn wyneb hwn ddydd Llun 9 Hydref 2023 yn sparc|spark, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ.
Egnioli ac Ehangu Partneriaethau mewn Iechyd Byd-eang fydd y thema eleni, a bydd Ilora Finlay, y Farwnes Finlay o Landaf, yn traddodi'r brif anerchiad.

---

## Cysylltu â Ni

**Os oes gennych unrhyw straeon neu brosiectau rhyngwladol yr hoffech iddynt gael sylw yn ein cylchlythyrau sydd ar ddod, anfonwch e-bost at:**

**Laura.holt@wales.nhs.uk**

**Daniela.stewart@wales.nhs.uk**